CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 25ain MEDI 2018.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts , Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 YMDDIHEURIAD:

Cynghorwyr Mr Raymond Evans, Mr Mike Jones & Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones..

3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd..

3.2 Diolchwyd i Cynghorydd Ian Owen am drefnu noson hyfforddiant y Diffibriliwr a gobeithio trefnu sesiwn arall yn y flwyddyn newydd. Mynegwyd siom nad oedd mwy o'r gymuned wedi dangos diddordeb ac fe cytunwyd talu am y rhybuddion.

3.3 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

3.3.1 Ni oedd neb yn datgan diddordeb.m yn cael ei thrafod.

4 ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIROL.

4.1 Cafwyd adroddiad fod trafodaeth ynghylch cyllideb y Cyngor Sir yn cychwyn Mis Hydref 2018.

4.2 Adroddiad fod trafodaeth Arolygaeth Ymgynghoriad y Wylfa hefyd yn cychwyn mis nesaf.

5 CYWIRO, DERBYN & ARWYDDO COFNODION MISOL Y CYNGOR (24ain Gorffennaf 2018).

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Gorffennaf 2018 yn gywir. **DH/EPW).**

Arwyddo.....

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

6.1 **Y Ganolfan –** cafwyd trafodaeth ac eglurhad pam fod ofer Uned Newid Babi i'r Ganolfan wedi costio £340.00 (£90.00 yn fwy na glustnodwyd)– cytunwyd talu'r anfoneb ond atgoffa y dylai gofyn i'r Clerc a'r Cadeirydd rhestru fath geisiadau ar y rhaglen o hyn ymlaen yn hytrach na chodi yn ddiarwybod yn ystod cyfarfod llawn y Cyngor.

6.2 **Arwydd Cyflymder Radar –** cytunwyd i'r Clerc symud ymlaen gyda Cwmni Coeval o osod 2 Arwydd naill ochr y pentref ar yr A55 ger Stad Maes Hyfryd a Phentre Berw. Hefyd darparu cais Grant Cymunedol y Cyngor Sir all elwa'r tuag at prynu UN ohonynt. Disgwylir na fydd yn bosib tan y flwyddyn nesaf.

6.3 Gweddillion carthffosiaeth perchennog 123 Gaerwen Uchaf wedi golchi o dan y ffens ac ar hyd gwyneb ofer y Cae Chwarae - **oherwydd pryder Iechyd a Diogelwch y Clerc i anfon llythyr i berchennog y tŷ yn gofyn am eglurhad a sicrhau nad oedd hyn am gario ymlaen.**

6.4 **Ail-Wynebu Offer Cae Chwarae Cae Mawr** – dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda GL Jones Playground o Fethesda ac wedi derbyn dyfnbris £22,975 am y gwaith yn ei gyfanrwydd ac oherwydd y costau fe argymellodd y dylai cwblhau'r gwaith dros 3 blynedd. Cytunwyd yr aelodau i'r argymelliad a cyn symud ymlaen - disgwyl am yr ail dyfnbris er mwyn cymharu.

6.5 **Torri Coeden 144 Gaerwen Uchaf** – cadarnhawyd fod yno brigyn ar ol angen sylw a gofyn I Mr Dafydd Hughes ei glirio.

6.6 **Llythyr CPD IAU Y Gaerwen** – cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi anfon ymateb perthnasol yn nol i'r Clwb Iau yn amlinellu penderfyniad y Cyngor Cymdeithas.

6.7 **Safle y Gofeb & Gardd y Mileniwm** – angen tacluso safle'r Gofeb cyn Sul y Cofio.

6.8 **Llwybr 33** – yn dilyn ebost wedi ei dderbyn oddiwrth y Cyngor Sir yn gofyn fod gordyfiant o amgylch y gamfeydd ac ar hyd y llwybr yn derbyn sylw, nid oedd Mr O G Jones yn fodlon wneud y gwaith oherwydd fod angen sylw i'r gamfeydd eu hunan ac roedd yn ofn achosi gofid gyda'r cymdogion gan nad oedd llawer yn defnyddio'r llwybr yn bellach. Gofynwyd i'r Clerc ymateb gyda Mr Arwel Evans o'r Cyngor Sir yn gofyn iddo ymweld a'r safle drosto hun.

6.9 **Llwybr Ty Mawr Llan** – nodwyd fod thorri cangen ar y llwybr wedi derbyn sylw.

6.10 **Manhole Covers** – nodwyd fod dau neu dri ohonynt wedi ei lleoli ger mynedfa Gaerwen Uchaf a DAU ar hyd Stryd y Capel wedi derbyn sylw**.**

6.11. **Gordyfiant ger Safle Anglesey Oil –** nodwyd fod y gordyfiant wedi derbyn sylw.

Arwyddo.....

7 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

7.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 30/9/2018 - cafwyd esboniad llawn o holl wariant a derbyniadau y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Medi 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn am Orsaf Adfer Agregau yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen – Rhif 33C190U.

Penderfyniad – dim sylwadau i'r cynllun ond dangosir a rhannwyd pryder y gall caniatau y fath cynllun arwain at ychwanegu symudiad cerbydau trwm lle mae gwrthwynebiad cryf gan y trigolion hynny sydd yn byw ar hyd y llwybr dynodedig a gofyn i'r datblygwyr ystyried llwybr amgen.

8.2 Cais Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd Arfaethedig ar gyfer Codi 3 Annedd ger Llain Capelulo, Pentre Berw – Rhif Cais 33102K/LUC.
Penderfyniad – DIM SYLWADAU.

8.3 Cais Adran 73A Amrywio Amodau Caniatad Cynllunio 33C182D er mwyn newid gorffenwaith a chynyddu arwynebedd y llawr ynghyd a cyflwyno manylion ecoleg, trwydded lliniaru a cau'r fynedfa wedi i'r gwaith gychwyn yn Berw Uchaf, Gaerwen – Rhif Cais 33C182E/VAR.
Penderfyniad – DIM SYLWADAU.

8.4 Cais Adran 73 Diwygio Amod (08) o Ganiatad Cynllunio 33C265 er mwyn diwygio dyluniad y cynllun a gymeradwywyd yn Glan Morfa, Pentre Berw – Rhif Cais 33C265A/VAR.
PENDERFYNIAD: Dim Sylwadau.

9 PENDERFYNIAD CYNLLUNIO.

9.1 Cais Cynllunio Little Chef, Gaerwen – 33C118D – wedi tynnu'n ôl.

9.2 Cais Dileu Ymrwymiad Cynllunio, Herb Garden, Pentre Berw – 33C102J – wedi tynnu'n ôl.

9.3 Cais Dymchwel & Adeiladu Bryn Sunsur & 1 Bryn Sunsur, Lon Graig, Gaerwen – 33C321 – CANIATAD.

9.4 Cais Adran 73 Gwared & Amrywio Amodau Caniatad Cynllunio 33C284A ar Tir Gyferbyn Holland Arms, Pentre Berw – CANIATAD.

Arwyddo.....

10 MATERION CAEAU CHWARAE.

10.1 **Partiau Ofer y Caeau Chwarae** - cytuno symud ymlaen a prynu y partiau gwerth £596.20 + TAW oddiwrth Cwmni HAGS.

10.2 **Ffens Gornel Rhwng yr Ysgol & Cae Chwarae Mawr** – derbynwiyd amcancyfrif £460 + TAW oddiwrth Mr Huw Frazer Owen ar gyfer trin y ffens

10.3 Archwiliad & Yswiriant Ofer y Caeau Chwarae – penderfynwyd y dylai trefnu DAU archwiliad pob blwyddyn a gofyn i'r Clerc drefnu gyda'r Cwmni Yswiriant Zurich neu ROSPA.

10.4 Giat Cae Chwarae Mawr – angen ystyried gosod arwydd ar y giat yn atal cerbydau rhag parcio yn dilyn adroddiad fod Mr Dafydd Hughes wedi methu torri gwair ar ddau achlysur yn ystod yr Haf.

11 MATERION LLWYBRAU.

11.1 Llwybr Phoneix Metals - nodwyd fod sbwriel ar hyd y llwybr a dwyn sylw y Cyngor Sir er mwyn iddynt clirio. Roedd angen trin clawdd y llwybr a gofyn i Mr O G Jones i wneud y gwaith.

12 MATERION PRIFFYRDD.

12.1 Lon Llangaffo – angen sylw - Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

12.2 Rheiliau Croesfan Pelican A5 – angen sylw. Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir.

12.3 Datblygiad Newydd Pentre Berw gyferbyn a Holland Arms – ebost oddiwrth y datblygwyr yn gofyn am enw newydd i'r 3 Annedd – penderfynwyd glustnodi'r cyfrifoldeb yn nhwylo Cynghorydd Mr Raymond Evans.

13. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

13.1 Pwyllgor Y Ganolfan – nodwyd yn sydyn fod Mr Mark Morris am ddechrau gwaith cynnal a chadw i llawr y Ganolfan – adroddiad bellach yn y cyfarfod nesaf.

13.2 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – derbyniwyd crynodeb oddiwrth Cynghorydd Einion Williams, gyda diolch, o gyfarfod a gynhaliwyd ar y 13 Medi 2018.

13.3 Un Llais Cymru – Dim Adroddiad.

13.4 Pwyllgor Llywodraethwyr yr Ysgol – Dim Adroddiad.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 23ain HYDREF 2018.

14.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:35yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.